



Polisi Mwy Abl a Thalentog

Dyddiad Cymeradwyo a Dyddiad Adolygu
Date Approved and Review Date

*Gweler Cynllun Adolygu Polisiau
See Policy Review Timetable*

Rhesymeg

Mae gan bob disgybl yr hawl i addysg eang, gytbwys a pherthnasol sy'n darparu parhad a dilyniant ac yn rhoi ystyriaeth i wahaniaethau rhwng unigolion. Mae'r ysgol hon yn ceisio darparu cwricwlwm sy'n briodol i anghenion a galluoedd pob dysgwr, gan gynnwys dysgwyr 'mwy galluog a thalentog'.

Diffiniad

Ystyria'r ysgol mai **dysgwyr 'mwy galluog a thalentog' yw'r disgyblion hynny sy'n cyflawni, neu sydd â'r gallu i gyflawni, ar lefel sy'n uwch na'r cyfartaledd ar gyfer eu grŵp blwyddyn** [e.e. yn arddangos talent(au) amlwg sydd y tu hwnt i'r hyn a nodweddir eu cyfoedion, ac/neu sy'n gweithio ar lefel yn uwch na'u cyfoedion mewn pwnc neu bynciau e.e. Lefel 5+ CA2, Lefel 6/7 diwedd CA3].

Yn ystadegol, gellid disgwyl canfod oddeutu 20% o ddysgwyr 'mwy galluog a thalentog' ym mhob grŵp blwyddyn, gydag ambell ddysgwr mwy disglair yn eu plith. Gwyddom fod y canrannau'n medru amrywio, fel mae natur, nodwedion a dwyster y galluoedd a'r talentau a ganfyddir yn amrywio. Defnyddiwn amrediad o strategaethau, arfau, ffynonellau data a gwybodaeth a chysylltiadau gydag arbenigwyr i geisio canfod pob un o'n dysgwyr mwy galluog a thalentog, beth bynnag eu tueddfryd, a hynny ar draws ystod o feysydd, pynciau ac agweddau ar fywyd, er mwyn darparu'n briodol ar eu cyfer ac ymateb i'w hanghenion. Yn ychwanegol disgwylir i ganfod oddeutu 2% o ddisgyblion eithriadol o abl ym mhob grŵp blwyddyn.

Strategaethau adnabod

Mae'r broses adnabod yn un barhaus ac yn dechrau pan fydd yr unigolyn yn ymuno â'n hysgol. Yn broses eang a hyblyg sy'n cynnwys rôl i'r holl staff, staff gyda chyfrifoldeb penodol, y corff llywodraethu, y dysgwyr a'u rhieni/gofalwyr, mae'n cwmpasu casglu a choladu gwybodaeth gan athrawon blaenorol a chyfredol, gwybodaeth oddi wrth rieni a gofalwyr, gwybodaeth gan y dysgwyr unigol a'u cyfoedion a mewnbwn gan bersonau arwyddocaol eraill, os yn briodol.

Ein hegwyddorion sylfaenol yw: sicrhau ansawdd radd flaen o ran yr addysgu a'r dysgu, a hynny i bawb; cynllunio a chyflwyno tasgau ysgogol, amrywiol a phriodol-heriol; arfogaeth i staff ddefnyddio ystod o ddulliau adnabod dysgwyr mwy galluog a thalentog, gan weithredu ar sail eu barn broffesiynol; trafod sensitif â disgyblion a'u cyfoedion; gweithredu ar dystiolaeth o ffynonellau dibynadwy, gan gynnwys asiantaethau ac unigolion allanol, deilliannau asesiadau a/neu ganlyniadau profion.

Fel ysgol byddwn yn adnabod disgyblion MAT mewn nifer o ffyrdd:

- Drwy ddata a gwybodaeth trosglwyddo Cynradd-Uwchradd (neu o ysgolion blaenorol) e.e. lefelau cyrhaeddiad, sgorau profion darllen a rhifedd, gwybodaeth fugeiliol gan yr ysgol gynradd (arall);
- Drwy enwebiadau gan adrannau - diweddarir y rheini yn llawn bob Hydref gydag ychwanegiadau yn cael eu cyflwyno yn ôl y galw dros y flwyddyn;
- Drwy enwebiadau gan rieni; a
- Drwy enwebiadau gan ddisgyblion, cyd-ddisgyblion neu'r gymuned.

Cofnod yr ysgol: Y Gofrestr MAT

- Ar ôl adnabod dysgwyr sy'n ddawnus ac/neu yn dalentog ac/neu yn alluog, fe'u cofnodir yn yr ysgol ar lefel pwnc/maes/blwyddyn ac ysgol gyfan fel yn briodol. Manylir ar natur eu harbenigedd, gan gyfeirio at y maes/meysydd neu'r agwedd benodol.
- Rhennir cynnwys y rhestr gyda'r holl staff a byddant yn gweithredu yn briodol ar sail hynny.
- Adolygir y cofnod/rhestr yn rheolaidd, a bernir os yw'r dysgwyr yn cyrraedd eu llawn botensial neu beidio.
- Diweddarir y gofrestr yn llawn yn flynyddol yn fuan yn nhymor yr Hydref, ac yn ol y galw yn ystod y flwyddyn .

Defnyddir cyfrifon Trydar a Safwe yr ysgol, gan gynnwys yr 'e-Bont' (newyddion electronig) ac archif 'Y Bont' i ddathlu llwyddiant ein holl ddisgyblion. Mae llwyddiant ein disgyblion abl a thalentog ar draws ystod o feysydd a phrofiadau yn nodwedd gref o hyn.

Dysgu, Addysgu, Cwricwlwm a Threfniadaeth

Bydd addysgwyr yn darparu tasgau, heriau a gweithgareddau gwahaniaethol ac ystod o gefnogaeth ac adnoddau i holl ddysgwyr yr ysgol; mae gweithredu a darparu'n briodol-heriol ar gyfer mwy galluog a thalentog yn rhan o'r disgwyliad sylfaenol yma.

- Darperir cwricwlwm eang a chytbwys, seiliedig ar ofynion Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru 2008 a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, a'r agweddau Meddwl a TGCh o'r Fframwaith Sgiliau Anstatudol. Mae hyn yn galluogi athrawon i addasu rhaglen waith yn unol â gallu pob unigolyn, gan gynnwys y dysgwyr mwy galluog a thalentog.
- Rydym yn rhannu gwybodaeth o gyrhaeddiad blaenorol disgyblion wrth drosglwyddo gan gynnwys eu sgorau darllen a rhif. Rhennir data'r profion hefyd wrth drosglwyddo o fewn yr ysgol ac mae data cyrhaeddiad blaenorol disgyblion ar gael i'r holl staff drwy SIMS.
- Gwneir asesiadau ffurfiannol a pharhaus yn erbyn amcanion Lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol, ac fe'u defnyddir yn rheolaidd i osod targedau cwricwlwm, fel y gall pawb gyflawni ar y lefel uchaf bosibl a gwneud mwy o gynnydd. Mae'r dysgwyr yn rhan o'r broses hon ac felly maent yn weithredol.
- Cynigir cyfleoedd/profiadau cyfoethogi ymestynnol i grwpiau o ddysgwyr mwy galluog a thalentog, gan gynnwys cyfranogi mewn gweithgareddau ymestyn, cydweithio ar brosiectau penodol o fewn yr ysgol hon a thu hwnt.
- Bydd staff yr ysgol yn cydweithio gyda sefydliadau, asiantaethau ac/neu unigolion allweddol eraill i adnabod adnoddau, cyfarpar a ffynonellau hyfforddiant a phrofiadau all ddiwallu anghenion addysgu-dysgu a dyheadau'r dysgwyr mwy galluog a thalentog.

Mae dysgu effeithiol yn:

- gyraeddadwy, yn berthnasol ac yn gofiadwy
- datblygu sgiliau ac yn ymestyn dealltwriaeth yn ogystal â datblygu ac ymestyn gwybodaeth
- adeiladu mewn modd priodol ar ddysgu blaenorol ac yn arwain yn amlwg ac yn eglur at y camau nesaf
- broses weithredol lle mae'r dysgwr yn cysylltu profiadau newydd â'r profiad sydd eisoes ag ystyr iddo, ac yn cymhwyso ac yn cymhathu syniadau newydd
- digwydd yng nghwmni neu yng nghyd-destun pobl eraill
- ymateb i 'lais y dysgwr'.

Dylai'r Athro:

- Gyfoethogi - mynd yn ddyfnach i'r pwnc
- Ymestyn – ehangu gorwelion yr addysgu
- Cyflymu – mynd yn gyflymach drwy'r gwaith sylfaenol
- Rhyddhau – datblygu annibyniaeth ei ddisgyblion
- Cyfyngu - er mwyn galluogi'r disgyblion i fanteisio ar adnoddau'r gymuned ehangach
- Dathlu – er mwyn 'normaleiddio' y perfformiad eithriadol.

Gellir gwahaniaethu a chynnig her drwy:

- Gwestiynu effeithiol e.e. drwy fireinio ansawdd, ystod, amseru'r cwestiynu; drwy ddefnyddio cwestiynau agored a/neu ddilyniant o gwestiynau i ymestyn ymatebion a meddwl disgyblion;
- Trefnu ar sail wybyddol e.e. lefelau dysgu o'r syml i'r cymhleth (Tacsonomi Bloom – Atodiad 2);
- Trefnu i'r disgyblion gydweithio ar dasgau cynyddu gwybodaeth a datrys problemau (dysgu cydweithredol a thrwy ymholi ac ymchwilio);
- Defnydd o brosiectau estynedig a chwestiynau mawr;
- Drwy fodelu gwaith o safon uchel a gwahaniaethu yn y deilliannau, meini prawf a camau gweithredu/dysgu mae disgyblion yn ei gymryd;
- Gosod targedau uchel i ddisgyblion a'u cefnogi i gyrraedd y targedau hyn beth bynnag yw eu hanghenion, sgiliau, abled neu dalent; a
- Datblygu sgiliau myfyrio a meta wybyddiaeth disgyblion fel eu bod yn cymryd rhan weithredol yn eu dysgu a'u cynnydd.

Cynhwysiad

Mae'r ysgol yn cydnabod y bydd rhai disgyblion dawnus a thalentog yn awyddus i arbenigo'n gynnar mewn rhai meysydd neu weithgareddau, efallai ar draul profiadau neu bynciau eraill yn y cwricwlwm. Polisi'r ysgol yw annog a hybu'r holl ddysgwyr i gyrraedd eu llawn botensial ym mhob maes a phwnc, gan gynnwys y pynciau maent yn ddawnus, neu'n alluog neu'n dalentog ynddynt; gwneir ymdrech i osgoi gweld yr un dysgwr yn methu manteisio'n llawn ar ehangder y ddarpariaeth gwricwlaidd a'r profiadau cyfoethog amrywiol sydd ar arlwy'r ysgol.

Datblygu a hyfforddi staff

Manteisia'r ysgol ar gyfleoedd HMS a chynghor ymgynghorol i hyfforddi ei staff ym maes darparu'n briodol, ac effeithiol ar gyfer anghenion dysgwyr mwy galluog a thalentog, a ble bynnag mae modd, mae'r ysgol yn cefnogi staff i fynychu cyrsiau a chynadleddau perthnasol. Gwneir ymdrech i briodi anghenion DPP staff unigol gyda blaenoriaethau'r ALL, blaenoriaethau cenedlaethol a'r ysgol parthed dysgwyr mwy galluog a thalentog.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r Cydlynnydd Dysgwyr Mwy Galluog a Thalentog yr ysgol yn aelod o'r UDRh. Ymhlith dyletswyddau'r cydgysylltydd mae –

- arwain ar lunio ac adolygu'r cofnod/rhestr o ddysgwyr mwy galluog a thalentog, mewn cydweithrediad gyda gweddill y staff, aelodau'r UDRh a'r Corff Llywodraethol.
- cynnig lle teilwng i rieni/gofalwyr yn y broses o adnabod dysgwyr mwy galluog a thalentog, ac wrth adolygu'r ddarpariaeth a chynnydd dysgwyr.

- cadw'r staff yn gyfredol am y strategaethau, dulliau addysgu-dysgu, cyfarpar, deunyddiau, adnoddau TG a ffynonellau eraill sydd ar gael ar gyfer darparu'n hyblyg ac effeithiol ar gyfer y dysgwyr mwy galluog a thalentog.
- cydweithio gyda'r UDRh a rheolwyr canol i fonitro'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion MAT a'r, cynnydd a wneir gan y dysgwyr mwy galluog a thalentog, gan adnabod camau gweithredu penodol ar gyfer ymateb i agweddau a blaenoriaethau sydd angen sylw.
- Monitro ac adrodd ar y cynnydd a wneir gan y dysgwyr mwy galluog a thalentog i'r dysgwyr a'u rhieni/gofalwyr, i staff yr ysgol, a'r Corff Llywodraethol.
- sicrhau bod ehangder agenda haeddiannau a llwyddiannau'r dysgwyr mwy galluog a thalentog yn cael ei ddwyn gerbron yr holl staff a'r Corff Llywodraethol.
- Cydweithio yn agos a'r Penaethiaid Cynradd y Dalgylch er mwyn sicrhau pontio effeithiol ar gyfer disgyblion MAT.

Cyfrifoldebau eraill:

Pob athro: i gynllunio ar gyfer disgyblion MAT o ddydd i ddydd drwy ddilyn yr arweiniad a chamau uchod;

Penaethiaid Adran a Chydlynwyr: i sicrhau fod darpariaeth o ansawdd ar gyfer disgyblion MAT a'u bod yn cael eu herio a'u cefnogi yn briodol; monitro ac adrodd ar gyflawniad disgyblion MAT fel rhan o'r broses Hunan Arfarnu parhaus;

Penaethiaid Cynnydd: i fod yn ymwybodol o'r disgyblion MAT yn eu blwyddyn ac i fonitro eu cynnydd drwy wirio data adroddiadau mewnol, asesiadau mewnol ac allanol a drwy gyfweld a disgyblion penodol e.e. disgyblion MAT sydd yn tangyflawni, disgyblion MAT sydd yn perfformio yn eithriadol, disgyblion MAT sydd hefyd yn perthyn i grwpiau bregus eraill (PYD, LAC ...).

Gweithredir y Polisi mewn cysylltiad â pholisïau eraill megis Polisi ADY, Polisi Asesu, Cofnodi ac Adrodd, Polisi Dysgu ac Addysgu a'r Polisi Llythrennedd a Rhifedd.